OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1905 (Cy.232)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2012

Gwnaed - - - -	*18 Gorffennaf 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*19 Gorffennaf 2012*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 9(1)(a), 140(7) ac (8), 142(4) a (5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**1**)(**2**) yn gwneud y rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Medi 2012.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(**3**).

Diwygio'r Prif Reoliadau

2. Mae'r Prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

3. Yn rheoliad 2, yn y man priodol, mewnosoder —

"mae i "gorchymyn gofal" yr ystyr a roddir i "care order" yn adran 105(1) o Ddeddf 1989(**4**);".

4. Yn rheoliad 7 —

(a) cyn "Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu", mewnosoder "(1)";

(b) ar ôl "o ran mabwysiadu" mewnosoder "er mwyn sicrhau bod y panel yn cael ei drefnu'n effeithiol ac yn gweithredu'n effeithlon.";

(**1**) 2002 p.38. I gael ystyr "regulations" *gweler* adran 144(1).
(**2**) Trosglwyddwyd y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 i Weinidogion Cymru o dan adran 162(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S. 2005 / 1313 (Cy. 167).
(**4**) 1989 p. 41.

(c) hepgorer "a rhaid i'r asiantaeth adolygu'r cyfarwyddiadau hynny yn gyson a, phan fydd yn briodol, eu diwygio."; a

(d) mewnosoder fel is-baragraff newydd "(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu adolygu'r cyfarwyddiadau yn rheoliad 7(1) yn gyson a'u diwygio pan fo hynny'n briodol.".

5. Mewnosoder ar ôl rheoliad 8 —

"**8A.** Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu sicrhau bod y paneli mabwysiadu'n cael eu cynghori'n gywir gan berson sydd wedi ymgymhwyso'n briodol mewn perthynas â mabwysiadau ag iddynt elfen dramor os oes achos o'r fath yn cael ei ystyried.".

6. Yn rheoliad 17 —

(a) yn y pennawd, hepgorer "ar gyfer y panel mabwysiadu",

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Mewn achos—

(a) lle y mae'r asiantaeth fabwysiadu yn awdurdod lleol ac yn ystyried a ddylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, a

(b) lle y mae naill ai paragraff (2A) neu (2B) yn gymwys,

ni chaiff yr asiantaeth fabwysiadu gyfeirio'r achos at y panel mabwysiadu.

(2A) Mae'r paragraff hwn yn gymwys —

(a) pan fo'r plentyn wedi ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gan yr asiantaeth fabwysiadu neu'n cael llety gan yr awdurdod lleol;

(b) pan na fo unrhyw asiantaeth fabwysiadu wedi ei hawdurdodi i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, ac

(c) pan na fo gan y plentyn riant na gwarcheidwad, neu fod yr asiantaeth yn ystyried bod yr amodau yn adran 31(2) o Ddeddf 1989 wedi eu bodloni o ran y plentyn.

(2B) Mae'r paragraff hwn yn gymwys —

(a) pan fo cais wedi ei wneud, a heb ei benderfynu, y gellid gwneud gorchymyn gofal yn ei gylch o ran y plentyn, neu

(b) pan fo'r plentyn yn ddarostyngedig i orchymyn gofal ac na fo'r asiantaeth fabwysiadu wedi ei hawdurdodi i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

(2C) Mewn achos nad yw'n dod o dan baragraff (2), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu anfon yr wybodaeth a'r adroddiadau y cyfeirir atynt yn (2D) at y panel mabwysiadu.

(2D) At ddibenion paragraff (2C) a rheoliad 19(1)(A) yr wybodaeth a'r adroddiadau yw —

(i) yr adroddiad ysgrifenedig y cyfeirir ato yn rheoliad 17(1),

(ii) yr adroddiad ysgrifenedig ar gyflwr iechyd y plentyn y cyfeirir ato yn rheoliad 15(2)(b), oni bai bod yr asiantaeth fabwysiadu wedi derbyn cyngor gan y cynghorydd meddygol yn nodi nad oes angen adroddiad o'r fath, a

(iii) yr wybodaeth am iechyd rhieni naturiol y plentyn.".

7. Yn rheoliad 19 —

(a) ym mharagraff (1), ar y dechrau mewnosoder "Mewn unrhyw achos sy'n dod o dan reoliad 17(2C)", a

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder —